



Annwyl Gwsmeriaid,

Cau Cangen Dros Dro

**Swyddfa Bost Deri
7 Heol Newydd, Deri, Bargod, CF81 9GJ**

Rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi y bydd y gangen uchod, yn anffodus, yn dilyn ymddiswyddiad y postfeistr, yn cau dros dro ddydd Sadwrn 22 Hydref 2022 am 17:30.

Hoffwn bwysleisio ein bod ar hyn o bryd yn ystyried y dewisiadau a fydd yn ein galluogi i gadw'r cyfnod o fod ar gau cyn fyrred â phosibl fel y gallwn adfer gwasanaeth Swyddfa Bost Deri yn y gymuned leol. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig gwneud yn siŵr y bydd unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl a fydd yn ei redeg, ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Bydd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn adlewyrchu nifer y cwsmeriaid a'r defnydd o'r Swyddfa Bost, ac mae'n bosibl y byddwn yn sefydlu math gwahanol o wasanaeth. Gan weithio gyda phostfeistr sydd newydd ei benodi, byddwn yn addasu cynllun, celfi gosod a ffitiadau'r siop bresennol er mwyn gallu cynnal y newidiadau os bydd angen a chreu profiad mwy modern a chyfleus i'r cwsmeriaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posterï yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosterï, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylustod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Oherwydd Covid-19, gall y bydd oriau agor y canghennau'n amrywio. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

Katimay John

Katimay John
Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

Canghennau eraill

Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Swyddfa Bost Bargod

10 O dan Heol Caerdydd
Bargod
CF81 8XN

Oriau agor

Llun - Gwener	08:30 – 17:00
Dydd Sadwrn	08:30 – 13:00
Dydd Sul	Ar gau

Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal â Threth y Car, Gwirio ac Anfon Pasbort a dewis eang o Arian Teithio.

Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 2.5 milltir o gangen Deri, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae yna barcio â chyfyngiadau amser gerllaw. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

Swyddfa Bost Fochriw

Siop a Gwerthwr Papurau Newydd y
Pentref
1 The Grove
Fochriw
Bargod

Oriau agor

Llun, Maw, Mer, Gwen	07:30 – 17:00
Iau	07:00 – 17:00
Sad	07:30 – 13:00
Sul	Ar gau

CF81 9LG

Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol ac Yswiriant Teithio ar Gais.

Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a stepen wrth y fynedfa.

Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.1 milltir o gangen Deri, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Deri a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynrir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro¹/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn).

Postofficeviews.co.uk

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost